AHDB Agriculture & Horticulture DEVELOPMENT BOARD

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

25 Mehefin 2012

Annwyl Gomisiynydd,

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig. Ein pwrpas yw gwneud y chwe sector nwyddau rydym yn eu cefnogi'n fwy cystadleuol a chynaliadwy.

Gan weithredu ar ran tua 75% o gyfanswm cynnyrch amaethyddol y Deyrnas Unedig, rydym yn cefnogi:

i) Cig moch yn Lloegr - trwy ein his-adran BPEX
ii) Llaeth ym Mhrydain - trwy ein his-adran DairyCo
iii) Cig eidion a chig oen yn Lloegr - trwy ein his-adran EBLEX
iv) Garddwriaeth fasnachol ym Mhrydain - trwy ein his-adran Cwmni Datblygu Garddwriaethol
v) Grawnfwyd a hadau olew yn y Deyrnas Unedig - trwy ein his-adran HGCA
vi) Tatws ym Mhrydain - trwy ein his-adran Cyngor Tatws

Mae ein dwy is-adran cig coch yn gweithredu yn Lloegr yn unig, ac maent tu hwnt i gwmpas ein Cynllun Iaith Gymraeg. Yn sgil y nifer fach o dalwyr lefi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru mewn perthynas â'n his-adrannau Garddwriaethol, Tatws a Grawnfwyd/Hadau Olew, bu i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, mewn llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr 2008 *"gadarnhau na fydd disgwyl i'r HGCA, y Cwmni Datblygu Garddwriaethol a'r Cyngor Tatws i gynhyrchu gwybodaeth a deunydd yn y Gymraeg oni bai eu bod yn ymgymryd â phrosiect penodol sydd wedi'i anelu at y cyhoedd yng Nghymru'n unig."* Ni ymgymerwyd ag unrhyw brosiectau o'r fath yn ystod y cyfnod adrodd 12 mis hyd 31 Mawrth 2012.

Mae'r adroddiad ar y tudalennau nesaf yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) dros y flwyddyn ddiwethaf, o ran parhau i adeiladu ar ein dulliau o gydymffurfio a'n camau gweithredu, yn arbennig trwy is-adran DairyCo, yn unol â'n hymrwymiadau i Gynllun yr Iaith Gymraeg.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'ch tîm dros y misoedd sydd i ddod er mwyn deall mwy am y Safonau newydd mewn perthynas â'r Gymraeg, a'r hyn sydd angen inni ei wneud yn wahanol er mwyn cydymffurfio â nhw, a chyda'r Mesur newydd, sef Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn gywir

Tom Taylor
Prif Weithredwr

Stoneleigh Park Kenilworth Warwickshire CV8 2TL T: 0247 669 2051 E: info@ahdb.org.uk W: www.ahdb.org.uk

Agriculture & Horticulture
DEVELOPMENT BOARD

Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Adroddiad Blynyddol 2011/12 i Gomisiynydd y Gymraeg

Cyflwyniad

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), a'n his-adran DairyCo yn arbennig, yn parhau i wneud cynnydd da o ran ymestyn yr amrywiaeth o adnoddau a chymorth a ddarperir i gwrdd â'r ymrwymiadau o ran y Gymraeg a wnawn yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Caiff y cydymffurfio hwn ei fonitro trwy Bennaeth Cyfathrebu'r Bwrdd, sy'n eistedd ar yr Uwch Dîm Gweithredu. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol hwn i Uwch Dîm Gweithredu'r AHDB yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2012, ac i'r prif Fwrdd yn ei gyfarfod ar 24 Gorffennaf 2012.

Mae'r prif bwyntiau canlynol yn rhoi darlun cyffredinol o'r hyn a gyflawnwyd gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth ar lefel Corfforaethol, ac yna ar lefel is-adrannol penodol DairyCo. Mae esiamplau o ddeunyddiau copi caled ar gael os gwneir cais.

AHDB - Lefel Corfforaethol

Canllawiau Staff

Hysbyswyd y Bwrdd a'r Uwch Dîm Gweithredu am ymrwymiadau AHDB fel rhan o'n Cynllun Iaith Gymraeg a'n Cynllun Gweithredu, a darparwyd mwy o fanylion cydymffurfio i reolwyr cyfathrebu ar draws yr AHDB a'r uwch reolwyr sy'n gyfrifol am Adnoddau Dynol.

Gwefannau

Mae Cynllun Iaith Gymraeg yr AHDB wedi'i gyhoeddi ar wefan y Bwrdd yn Gymraeg a Saesneg. Bydd yr adroddiad blynyddol hwn, unwaith y bydd wedi'i dderbyn, hefyd yn cael ei gyhoeddi yn y ddwy iaith ar wefan y Bwrdd.

Mae tudalennau Cymraeg eu hiaith ar brif wefan yr AHDB, www.ahdb.org.uk , yn ogystal ag ar safleoedd is-adrannau'r AHDB sydd â chylch gwaith dros Brydain Fawr neu'r Deyrnas Unedig gyfan - www.potato.org.uk, www.hgca.com , www.hdc.org.uk , www.dairyco.org.uk

Recriwtio Gweithwyr

Rydym yn asesu gweithleoedd a swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, a chaiff deunydd recriwtio ei asesu i sicrhau ei fod yn briodol mewn perthynas â'r Gymraeg. Doedd dim galw am hynny yn y 12 mis hyd 31 Mawrth 2012.

System Sgorio

Cytunwyd ar system sgorio AHDB gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2009 ac mae'n parhau i fod ar waith yn ystod y flwyddyn adrodd 2011/12.

AHDB – Lefel Is-adrannau - DairyCo

Mae tua un rhan o chwech o dalwyr lefi'r AHDB yn ffermio yng Nghymru. Mae cyfran uchel o'r ffermwyr llaeth yng Nghymru'n siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.

Mae is-adran DairyCo yr AHDB, sef DairyCo, yn darparu Prosiect Gwella Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi ar y cyd yng Nghymru. Darperir y prosiect trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariannir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae'r prosiect yn glynu at Bolisi Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Mae tîm AHDB/DairyCo Cymru'n cynnwys saith aelod staff, ac mae pedwar o'r rhain yn ysgrifennu a siarad Cymraeg yn rhugl. Mae gan y tîm hwn brofiad llawn o gyflwyno'u gwaith yn ddwyieithog, ac maent bob amser yn ystyried gofynion dwyieithrwydd. Mae Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg arfaethedig AHDB/DairyCo ar gyfer 2012/2013 yn cynnwys gweithgareddau fydd yn parhau i ddatblygu a gwella sgiliau ac ymwybyddiaeth y tîm.

Mae'r pwyntiau bwled canlynol yn rhoi darlun cyffredinol o'r hyn a gyflawnwyd gan ein his-adran DairyCo yn erbyn y Camau Gweithredu a gytunwyd.

Darparu gwasanaethau

- Darperir deunydd a gwasanaethau dwyieithog ar gyfer pob digwyddiad yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn cynnwys y ddarpariaeth yn y prif Ddigwyddiad Llaeth a'r Sioe Da Byw a gynhelir yn yr NEC yn Lloegr.
- Gellir cynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu beth sydd orau gan y rhai sy'n bresennol.

Gwasanaethau a ymgymerir ar ein rhan gan drydydd parti

- Mae unrhyw dendr neu gyfarwyddyd ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru'n rhoi ystyriaeth i ofynion dwyieithrwydd, ac adlewyrchir hynny yn y contractau.

Hysbysebu, Deunydd Printiedig, Deunydd Cyhoeddusrwydd

- Mae gwahoddiadau, ffurflenni gwerthuso, posteri, ffenestri '*pop-up*' dwyieithog yn eu lle, yn ogystal â rhai cyhoeddiadau Cymraeg, ac mae adolygu a datblygu pellach ar y gweill ar gyfer 2012/2013.
- Mae Godro, cylchlythyr DairyCo'n gwbl ddwyieithog, gyda'r holl gynnwys yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg, Darperir datganiadau i'r wasg yn Gymraeg os gwneir cais.
- Mae system sgorio cyhoeddiadau yn ei lle.

Cyfathrebu ac Addysg

- Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn delio'n awtomatig ag unrhyw ohebiaeth/cyfathrebu cyffredinol yn Gymraeg.

- Erbyn hyn mae gan Gymru ardal ddwyieithog ar wefan DairyCo a gwefan defnyddwyr DairyCo: www.thisisdairyfarming.com. Mae cynlluniau yn eu lle hefyd i gyfieithu mwy o ddeunydd cyfathrebu gyda defnyddwyr.
- Cafodd adnoddau addysgol ar-lein newydd dwyieithog ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru eu lansio ym mis Medi 2011 ar wefan AHDB, a ariannir ar y cyd: www.foodafactoflife.org.uk ac mae pob ysgol yng Nghymru wedi derbyn gwybodaeth ar sut i gyrchu'r safle.
- Lansiwyd deunyddiau cymorth copi caled dwyieithog newydd (posteri/sticeri) yn Ebrill/Mai 2012.

Staffio

- Mae pedwar aelod o staff tîm Cymru'n siarad Cymraeg.

Trefniadau mewnol

- Sefydlwyd gweithgor i yrru'r gwaith o weithredu Cynllun Iaith Gymraeg yn ei flaen
- Defnyddir cyfieithwyr Cymraeg sydd â chymwysterau addas yn rheolaidd erbyn hyn
- Mae cynlluniau marchnata'n tynnu sylw at yr ystyriaeth y dylid ei rhoi i Gynllun yr Iaith Gymraeg mewn perthynas â gwasanaethau a chynnyrch lle bo'n briodol.

Dyddiad: Mehefin 2012

AHDB Agriculture & Horticulture DEVELOPMENT BOARD

Meri Huws
Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff
CF10 1AT

25 June 2012

Dear Commissioner,

The Agriculture and Horticulture Development Board operates across the UK. Our purpose is to make the six commodity sectors we support more competitive and sustainable.

Covering about 75% of total agricultural output in the United Kingdom (UK), we support:

i) Pig meat in England – through our BPEX division
ii) Milk in Great Britain (GB) – through our DairyCo division
iii) Beef and lamb in England – through our EBLEX division
iv) Commercial horticulture in GB – through our HDC division
v) Cereals and oilseeds in the UK – through our HGCA division
vi) Potatoes in GB – through our Potato Council division

Our two red meat operating divisions cover England only and are outside the scope of our Welsh Language Scheme. The very limited number of levy payers based in Wales for our Horticulture, Potatoes and Cereals/Oilseeds divisions prompted the Welsh Language Board in a letter dated 12 December 2008 to *"confirm that the HGCA, the Horticulture Development Company and the Potato Council will only be expected to produce information and material in the Welsh language if they are undertaking a specific project aimed solely at the public in Wales."* No such projects were undertaken during the 12 month reporting period to 31 March 2012.

The report on the following pages reflects the good progress AHDB has made over the last year in continuing to build on our compliance and activity, particularly through our DairyCo division, in line with the commitments we make in our Welsh Language Scheme.

We look forward to working with your team over the coming months to understand more about the new Welsh Language Standards and what we need to do differently in order to comply with them and the new Welsh Language Measure (Wales) 2011.

Yours sincerely

Tom Taylor
Chief Executive

Stoneleigh Park Kenilworth Warwickshire CV8 2TL T: 0247 669 2051 E: info@ahdb.org.uk W: www.ahdb.org.uk

Agriculture & Horticulture DEVELOPMENT BOARD

Agriculture and Horticulture Development Board Annual report 2011/12 to the Welsh Commissioner

Introduction

The Agriculture and Horticulture Development Board (AHDB) and, in particular our DairyCo division, continues to make good progress on extending the range of resources and support we provide to deliver the Welsh Language commitments we make in our Welsh Language Scheme.

Our compliance is monitored through the AHDB Head of Communications who sits on the Senior Executive Team. This annual report will be presented to the AHDB Senior Executive Team at its meeting on 3 July 2012 and to the main AHDB Board at its meeting on 24 July 2012.

The following top line points provide an overview of what has been achieved by AHDB at a Corporate level and then at the specific DairyCo divisional level. Example hard copy materials are available on request.

AHDB Corporate Level

Staff Guidance

The AHDB commitments within our Welsh Language Scheme and Action Plan were communicated to the Board and Senior Executive Team with more detailed compliance briefings provided to the communication managers across AHDB and the senior managers responsible for Human Resources.

Websites

The AHDB Welsh Language Scheme is published on the AHDB website in Welsh and English language versions. This annual report, once accepted, will also be published in both languages on the AHDB website.

Welsh language pages are on the main AHDB website, www.ahdb.org.uk, and also on the sub-sites of the AHDB divisions which have a GB or UK remit – www.potato.org.uk, www.hgca.com, www.hdc.org.uk, www.dairyco.org.uk.

Employee recruitment

We assess workplaces and jobs where the ability to speak Welsh is essential or desirable and recruitment materials are assessed for Welsh language relevance. There were none required during the 12 months to 31 March 2012.

Scoring system

An AHDB scoring system was agreed with the WLB in 2009 and remained in operation during the 2011/12 reporting year.

AHDB Divisional level – DairyCo

Approximately one sixth of AHDB's milk levy payers farm in Wales. A high proportion of Welsh dairy farmers speak Welsh as their first language.

AHDB's DairyCo division, DairyCo, jointly deliver a Supply Chain Efficiency Project within Wales. This project is made possible through the Rural Development Plan for Wales 2007-2013 which is funded by the Welsh Government and the European Agricultural Fund for Rural Development. The project adheres to the Welsh Government's Welsh Language Policy.

The AHDB/DairyCo Wales team includes seven members of staff, four of which are fully competent in written and spoken Welsh. This team is fully experienced in delivering their work bilingually and always take into consideration bilingual requirements. The proposed AHDB/DairyCo 2012/2013 Welsh Language Action Plan contains activities to continue to develop and improve the skills and awareness of the team.

The following bullet points provide an overview of what has been achieved by our DairyCo division against the agreed Action Plans.

Delivering services

- All Welsh events provide bilingual material and services, This also includes provision at the main Dairy Event and Livestock Show held at the NEC in England.
- Meetings can be conducted through the medium of English or Welsh depending on the preference of the attendees.

Services undertaken on our behalf by third parties

- Tenders and briefs for activities in Wales consider bilingual requirements and this is reflected within contracts.

Advertising, Printed Literature, Publicity Materials

- Bilingual invites, evaluation forms, posters, pop-up are in place as well as some Welsh publications, with further review and development planned for 2012/2013.
- Godro, the DairyCo Wales newsletter is fully bilingual with all content appearing both in English and Welsh. Press releases provided in Welsh on request.
- Scoring system for publications in place.

Communication & Education

- Welsh speaking staff automatically deal with Welsh correspondence/general communication.
- Wales has now got a bilingual area on the main DairyCo website and the DairyCo consumer facing website: www.thisisdairyfarming.com. Plans are also in place to translate other consumer facing communication.

- New Welsh bilingual online education resources for both primary and secondary schools were launched in Sept 2011 onto the AHDB jointly funded website: www.foodafactoflife.org.uk and all schools in Wales have received information on how to access the site.
- New Welsh bilingual hard copy support materials (posters/stickers) launched April/May 2012.

Staffing

- Wales-based team has four Welsh speaking members of staff.

Internal arrangements

- Established a working group to push forward delivery of the Welsh Language Scheme.
- Suitably qualified Welsh translators now used regularly
- Marketing plans highlight that consideration must be given to the Welsh Language Scheme for services and products were relevant.

Date: June 2012